# LISVANE AND LLANISHEN RESERVOIRS

## Update Newsletter — May 2022

This is not a circular
Owner/Occupier

## Hello

Welcome to the Lisvane & Llanishen Reservoirs Spring Newsletter.

In this newsletter we are updating on the progress with the Visitor Centre construction, the enhancements made across the site, as well as highlight the work due to take place in the summer months.

## Visitor Hub making great progress!

Our work to construct the brand new visitor hub got underway in January 2022, and once completed it will create a hub for recreation, health and wellbeing for the local area and visitors to enjoy. The building will feature a café with panoramic views across both reservoirs, meeting and training rooms, as well as showers and changing facilities – allowing everyone the chance to enjoy a range of watersports and learn new skills in a safe inland environment.

During the first few weeks, BECT Building Contractors, a local Cardiff-based contractor who have been appointed to build the centre, focused on preparing the area for the visitor hub to be constructed. From the end of March, construction work began on the visitor hub itself, and we are currently laying the foundations for the main building. We have also been doing a lot of work on the new access road to the area, which is starting to take shape.



## Construction Traffic off Rhydypenau Road

Our work is not just limited to the construction of the new building – we are also busy working with contractors to make the whole site accessible for the public and creating conservation zones to protect the site's wildife and ecology.

Over the summer months, we will have some construction work taking place at various locations across the site. These contractors will use the existing entrance off Rhydypenau Road to ensure work on the main building is not delayed, so you may notice an increase in construction traffic in this area until the end of September.

From the end of May until the end of September, we will be constructing the footpaths around the reservoirs. This work will be carried out by contractors Knights Brown.

Thanks to the Welsh Government ENRaW grant, the footpaths will be enable the public to enjoy walks around the reservoirs, whilst protecting the grassland that has been designated as a SSSI for waxcap fungi.

From the start of June, we will also be carrying out some work to repair and replace the existing security fencing around the site. This will be carried out by contractors Harlestone, and will take approximately three months to complete. To minimise disruption to the local environment, clearance work to the hedges was completed earlier in the year before bird nesting season.

All of the work on site is being carried out under the supervision of an Ecological Clerk of Works to ensure minimal disruption to the local environment and the site's ecology.

For regular updates about our work on site just visit **www.dwrcymru.com/InYourArea**

Mewn Partneriaeth â **Llywodraeth Cymru**
In Partnership with **Welsh Government**

# LISVANE AND LLANISHEN RESERVOIRS

## Wildlife, Conservation and Ecology

Lisvane Reservoir is designated a Site of Special Scientific Interest (SSSI) for overwintering birds; and the embankments of both reservoirs are designated SSSI for waxcap fungi. In the last newsletter we let you know that our annual surveys had been taking place, providing us with data that will inform the future management of the site.

We've had some really exciting results from the Grassland fungi survey, recording a total of 27 species of waxcaps and several species of grassland fungi that have been recorded for the first time at the reservoirs – including a species which has only been recorded once before in the world! Making the site internationally important for nature conservation.

Also spotted visiting Lisvane reservoir was a red-listed water-fowl species, goldeneye. Red-listed birds are those classified as most in need of our help – which is why our management plan includes making Lisvane Reservoir into a Conservation Zone; creating a bird island on the reservoir and closing it off to members of the public during the winter months to minimising disruption.

For all those keen bird watchers, thanks to the ENRaW grant, you will be able to keep an eye on the birdlife from the bird-hide overlooking Lisvane Reservoir.

## Thank you South Rise Leisure Allotments

Throughout our construction work, we have been working closely with members of South Rise Leisure Allotments who are situated next to the reservoirs and share the access road off Lisvane Road.

As a big thank you for their patience and understanding, we donated 30 water butts, enabling allotment holders to recycle up to 3800 litres of water, save money and help look after the environment.

## Community Engagement

Not only have we been working with contractors to transform the site and enhance our ecology we have also been working in collaboration with local interest groups and education providers.



Our collaboration with Down to Earth Projects enabled the development of skills by constructing a roundhouse shelter as part of a training programme.

As training providers Down to Earth engaged with learners from three organisations, Neath Port Talbot Youth Service, People & Places Refugees and Asylum Seekers, and ACT Training. All learners who participated in the framing and construction of the roundhouse had the opportunity to gain Agored Credits for their hard work.

The end results have created a fantastic resource at the site that will enable learning and wellbeing activities, connecting people with nature in an urban landscape.

## Woodland Management

Thanks to the Welsh Government and National Lottery Heritage Community Woodlands fund – part of the Welsh Government's National Forest programme, the Rhydypenau Woodland Complex has had some exciting transformations take place recently.



Some of you may have noticed the removal of the cherry laurel within the woodland. Cherry laurel is a non-native invasive species that if left unmanaged will spread and eventually destroy our native woodland fauna and flora.

This clearance also allowed us to reclaim the historic fishponds. Woodland ponds are important to enhancing the biodiversity of an area, encouraging many species including dragonflies, amphibians and bats. We have retained any trees that have potential for roosting bats, and created timber habitat piles around the ponds for our insect population.

We have already seen encouraging signs of natural regeneration in the area, with plants such as the native bluebell, wood anemone and marsh marigolds all flowering during spring.

Llywodraeth Cymru Welsh Government

CRONFA DREFTADAETH HERITAGE FUND

## Volunteer Support

We would like to give a big thank you to volunteers from Glamorgan Bird Club who gave their time to visit the site and are now busy creating bird boxes to erect in the woodland for next year's bird nesting season.

As our construction programmes take place, we will be unable to facilitate volunteering at the reservoirs between June – September, ensuring the safety for all contractors and volunteers. However, we will be working with the Friends of Cardiff Reservoirs to enable training opportunities and prepare for some exciting volunteering projects in the Autumn.

If you are interested in volunteering at the reservoirs, please contact the Friends of Cardiff Reservoirs via their website:
**www.friendsofcardiffreservoirs.org**

# CRONFEYDD DŴR LLYS-FAEN A LLANISIEN

## Newyddlen Wybodaeth — Mai 2022

Nid cylchlythyr yw hwn
Y Perchennog/Deiliad

## Helo 'na

Croeso i Newyddlen Gwanwyn Cronfeydd Dŵr Llys-faen a Llanisien.

Yn y newyddlen byddwn ni'n rhannu newyddion am ddatblygiad y gwaith i adeiladu'r Ganolfan Ymwelwyr, y gwelliannau a wnaed ar draws y safle, ac yn rhoi amlinelliad o'r gwaith y bwriedir ei gyflawni dros fisoedd yr haf.

## Cynnydd gwych ar yr Hyb Ymwelwyr!

Dechreuodd ein gwaith i adeiladu hyb newydd sbon i ymwelwyr yn Ionawr 2022, ac ar ôl ei gwblhau bydd yn cynnig hyb ar gyfer hamdden, iechyd a llesiant i bobl leol ac ymwelwyr ei fwynhau. Bydd yr adeilad yn cynnwys caffi â golygfeydd panoramig dros y ddwy gronfa, ystafelloedd cyfarfod a hyfforddi, a chawodydd a chyfleusterau newid – a fydd yn rhoi cyfle i bawb fwynhau amrywiaeth o chwaraeon dŵr a dysgu sgiliau newydd mewn amgylchedd mewndirol diogel.

Yn ystod wythnosau cyntaf y gwaith, canolbwyntiodd BECT, y contractwyr adeiladu lleol o Gaerdydd a ddewiswyd i adeiladu'r ganolfan, ar baratoi'r ardal ar gyfer y gwaith i adeiladu'r hyb ymwelwyr. O ddiwedd Mawrth ymlaen, dechreuodd y gwaith adeiladu o ddifri, ac maent wrthi nawr yn gosod sylfeini'r prif adeilad. Mae llawer o waith wedi cael ei gyflawni ar y ffordd fynediad newydd i'r ardal hefyd, sy'n dechrau dod i'w siâp.



## Traffig Adeiladu oddi ar Heol Rhydypennau

Nid yw ein gwaith yn gyfyngedig i godi'r adeilad newydd, rydyn ni'n brysur hefyd yn gweithio gyda'r contractwyr i wneud y safle cyfan yn hwylus i'r cyhoedd, ac yn creu parthau cadwraeth i amddiffyn bywyd gwyllt ac ecoleg.

Dros fisoedd yr haf, bydd rhywfaint o waith adeiladu'n digwydd ar amryw o leoliadau ar draws y safle. Bydd y contractwyr yn defnyddio'r fynedfa gyfredol oddi ar Heol Rhydypennau er mwyn osgoi tarfu ar y gwaith ar y prif adeilad, felly mae'n bosibl y sylwch fod mwy o draffig adeiladu'n defnyddio'r llwybr yma rhwng nawr a diwedd Medi.

Rhwng diwedd Mai a diwedd Medi, byddwn ni'n adeiladu llwybrau cerdded o amgylch y cronfeydd. Caiff y gwaith yma ei gyflawni gan ein contractwyr, Knights Brown.

Diolch i grant ENRaW Llywodraeth Cymru, bydd y llwybrau cerdded yn caniatáu i'r cyhoedd fwynhau mynd am dro o amgylch y cronfeydd, wrth amddiffyn y glaswelltir sydd wedi cael ei ddynodi'n SoDdGA am ei ffwng cap cwyr.

O ddiwedd Mehefin ymlaen, byddwn ni'n cyflawni gwaith i drwsio ac adnewyddu'r ffensys diogelwch sy'n amgylchynu'r safle. Caiff hyn ei gyflawni gan ein contractwyr, Harlestone, a disgwylir iddo gymryd tua thri mis i'w gwblhau. Er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar yr amgylchedd lleol, cafodd y gwaith i glirio'r perthi ei gyflawni'n gynharach yn y flwyddyn cyn tymor nythu'r adar.

Mae'r holl waith ar y safle'n cael ei gyflawni dan oruchwyliaeth Clerc Gwaith Ecolegol er mwyn amddiffyn yr amgylchedd lleol ac ecoleg y safle.

I gael diweddariadau rheolaidd am ein gwaith ar y safle ewch i **www.dwrcymru.com/YnEichArdal**

Mewn Partneriaeth â **Llywodraeth Cymru**
In Partnership with **Welsh Government**

# LISVANE AND LLANISHEN RESERVOIRS

## Diolch i Randiroedd Hamdden South Rise

Trwy gydol ein gwaith adeiladu, rydyn ni wedi bod yn cydweithio'n agos â deiliaid Rhandiroedd Hamdden South Rise sy'n rhannu'r ffordd fynediad i'r cronfeydd oddi ar Heol Llys-faen.

Er mwyn diolch o galon iddynt am eu hamynedd a'u cydweithrediad, rhoesom 30 o gasgenni dŵr yn rhodd iddynt a fydd yn caniatáu i ddeiliaid y rhandiroedd ailgylchu hyd at 3800 litr o ddŵr, gan arbed arian a helpu i ofalu am yr amgylchedd.

## Bywyd Gwyllt, Cadwraeth ac Ecoleg

Mae Cronfa Ddŵr Llys-faen wedi ei dynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) oherwydd yr adar sy'n dod i dreulio'r gaeaf yno; ac mae argloddiau'r ddwy gronfa wedi eu dynodi'n SoDdGA am y ffwng cap cwyr sy'n tyfu yno. Yn y newyddlen ddiwethaf, rhoesom wybod i chi ein bod wedi bod wrthi'n cyflawni ein harolygon blynyddol, a fydd yn darparu data i lywio'n dulliau o reoli'r safle at y dyfodol.

Roedd canlyniadau'r arolwg o ffwng glaswelltir yn hynod o gyffrous. Cofnodwyd cyfanswm o 27 rhywogaeth o ffwng cap cwyr a chofnodwyd sawl rhywogaeth o ffwng glaswelltir yn y cronfeydd am y tro cyntaf – gan gynnwys un rhywogaeth sydd ond wedi cael ei gofnodi unwaith o'r blaen yn y byd i gyd, sy'n gwneud y safle'n lle pwysig yn rhyngwladol ar gyfer cadwraeth natur.

Rhywogaeth arall a welwyd yn ymweld â chronfa ddŵr Llys-faen oedd yr hwyaden lygad aur, aderyn dŵr sydd ar y rhestr goch. Yr adar ar y rhestr goch yw'r rhai sydd angen ein cymorth y mwyaf – dyna pam fod ein cynllun rheoli'n cynnwys troi Cronfa Ddŵr Llys-faen yn Barth Cadwraeth; gan greu ynys i'r adar ar y gronfa, a'i chau i'r cyhoedd dros fisoedd y gaeaf er mwyn rhoi llonydd iddynt.

Diolch i grant ENRaW, bydd yr adaryddwyr yn eich plith yn gallu cadw llygad ar yr adar o'r guddfan adarydda sy'n edrych allan dros Gronfa Ddŵr Llys-faen.

## Cysylltiadau Cymunedol



Yn ogystal â gweithio gyda chontractwyr i drawsnewid y safle a gwella ei ecoleg, rydyn ni wedi bod yn cydweithio â grwpiau a darparwyr addysg yn yr ardal leol hefyd.

Mae ein gwaith ar y cyd â Down to Earth Projects wedi caniatáu i ni ddatblygu sgiliau trwy adeiladu cysgodfa tŷ crwn yn rhan o raglen hyfforddi.

Bu'r darparwyr hyfforddiant, Down to Earth, yn cysylltu â dysgwyr o dri sefydliad, sef Gwasanaeth Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot, People & Places Refugees and Asylum Seekers ac ACT Training. Cafodd yr holl ddysgwyr a gymerodd ran yn y gwaith o godi'r ffrâm ac adeiladu'r tŷ crwn y cyfle i ennill Credydau Agored am eu gwaith caled.

Mae'r canlyniadau wedi creu adnodd bendigedig ar y safle a fydd yn hwyluso gweithgareddau dysgu a llesiant, gan gysylltu pobl â byd natur mewn tirwedd drefol.

## Rheoli'r Coetiroedd

Diolch i Lywodraeth Cymru a chronfa Coetiroedd Cymunedol Cronfa Treftadaeth y Loteri – rhan o raglen Coedwigoedd Cenedlaethol Llywodraeth Cymru, mae Coetiroedd Rhydypennau wedi gweld ambell i newid cyffrous yn ddiweddar.



Efallai bod rhai ohonoch wedi sylwi y cliriwyd y llawr-sirian o'r goedwig. Rhywogaeth oresgynnol anfrodorol yw'r llawr-sirianen, ac os na chaiff ei rheoli bydd yn lledu ac yn difa ffawna a fflora brodorol y coetir yn y pendraw.

Mae'r gwaith clirio yma wedi caniatáu i ni adfer y pyllau pysgod hanesyddol hefyd. Mae'r pyllau'n bwysig wrth gyfoethogi bioamrywiaeth ardal, gan ddenu nifer o rywogaethau gan gynnwys gwas y neidr, amffibiaid ac ystlumod. Cadwyd unrhyw goed sydd â'r potensial i ystlumod glwydo ynddynt, a chrëwyd tomenni cynefin pren o amgylch y pyllau er budd ein poblogaeth o bryfed.

Rydyn ni eisoes wedi gweld arwyddion calonogol o adfywiad naturiol yn yr ardal, gyda phlanhigion fel clychau'r gog brodorol, blodau'r gwynt a melyn y gors oll yn blodeuo yn y gwanwyn.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CRONFA DREFTADAETH
HERITAGE FUND

## Cymorth Gwirfoddolwyr

Hoffem ddiolch o waelod calon i wirfoddolwyr o Glwb Adar Morgannwg a roddodd o'u hamser i ymweld â'r safle ac sydd bellach yn brysur yn creu blychau adar i'w gosod yn y goedwig ar gyfer tymor nythu'r adar y flwyddyn nesaf.

Oherwydd y rhaglen adeiladu, ni fyddwn ni'n gallu hwyluso gwirfoddoli yn y cronfeydd rhwng Mehefin a Medi er diogelwch
yr holl gontractwyr a gwirfoddolwyr. Fodd bynnag, byddwn ni'n gweithio gyda Chyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd i hwyluso cyfleoedd i hyfforddi a pharatoi ar gyfer prosiectau cyffrous i wirfoddolwyr yn yr hydref.

Os oes diddordeb gennych wirfoddoli ar safle'r cronfeydd, cysylltwch â Chyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd trwy eu gwefan: **www.friendsofcardiffreservoirs.org**